**EOC-07-02(cof)**

**COFNODION**

**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

**Dyddiad:** Dydd Iau 14 Tachwedd 2002
**Amser:** 9.00 am
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol
**Yn bresennol:**
*Aelodau* David Melding (Cadeirydd) Canol De Cymru
Lorraine Barrett De Caerdydd a Phenarth
Eleanor Burnham Gogledd Cymru
Ann Jones Dyffryn Clwyd
Carwyn Jones Pen-y-bont ar Ogwr
Helen Mary Jones Llanelli
Huw Lewis Merthyr Tudful a Rhymni
Peter Rogers Gogledd Cymru
Owen John Thomas Canol De Cymru
*Swyddogion* Peter Gregory Y Grwp Gwasanaethau
Personel ac Adeiladau
*Gwahoddedigion Sefydlog*
Kate Bennett Y Comisiwn Cyfle Cyfartal
Will Bee Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Cherry Short Y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol
Derek Walker Fforwm Bwrdd Llywodraeth Leol Cymru
*Gwahoddedigion*
Amelia John Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Naomi Alleyne Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Steve Thomas Llywodraeth Leol Cymru
Gwilym Morris Scope
Giles Roddy Scope
Jessica Gregson Y Swyddfa Gartref
Kevin Fitzpatrick Y Comisiwn Hawliau Anabledd
Beverly Stephens Prosiect Monkton Priory
William Rees Prosiect Monkton Priory
Vikki Seddon Gwasanaeth Addysg y Crwydriaid Wrecsam
Ysgrifenyddiaeth
Claire Bennett Clerc y Pwyllgor
Lara Date Dirprwy Glerc y Cyngor

**9.00 - 9.10 am**

**Eitem 1**

**Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Ers cynnal y cyfarfod diwethaf, cafodd gwelliant i Reol Sefydlog 14.3 ei basio yn y cyfarfod llawn a oedd yn rhwystro'r Gweinidog rhag cadeirio'r pwyllgor. Felly, hyd nes bydd y Pwyllgor Busnes yn penderfynu ar gadeirydd newydd, gwahoddodd y Clerc enwebiadau ar gyfer cadeirydd dros dro. Pleidleisiodd y pwyllgor i benodi David Melding AC.
2. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Janet Ryder AC a Val Lloyd AC. Nodwyd hefyd nad oedd Sandra Axinowe, a oedd i fod siarad â'r pwyllgor am ddarparu addysg i Sipsiwn Crwydrol, yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch.

**9.10 - 9.20 am**

**Eitem 2**

**Adroddiad y Gweinidog**

1. Rhoddodd y Gweinidog adroddiad llafar i'r pwyllgor a nododd y byddai'n cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn y dyfodol. Dyma oedd prif bwyntiau'r adroddiad:

- Roedd y Prif Weinidog wedi cymeradwyo cynllun gweithredu 'Prif-ffrydio Cydraddoldeb mewn Penodiadau Cyhoeddus' yn ffurfiol. Roedd Pwyllgor Dethol Gweinyddiaeth Gyhoeddus Ty'r Cyffredin yn cymryd diddordeb mawr yn hynt gwaith y Cynulliad yn y maes hwn fel enghraifft o arfer da.
- Roedd yr Uned Polisi Cydraddoldeb wedi trefnu diwrnod amrywiaeth ar 11 Tachwedd er mwyn gwneud staff yn fwy ymwybodol o arferion da a'u helpu i brif-ffrydio cydraddoldeb yn eu gwaith. Bu'r tri chomisiwn cydraddoldeb yn cymryd rhan, sef Anabledd Cymru, AWEMA, Fforwm Bwrdd Llywodraeth Leol Cymru a Chlymblaid Genedlaethol Gwragedd Cymru. Mae digwyddiadau eraill ar y gweill.
- Erbyn hyn, mae bron pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o amrywiaeth a bellach mae hyfforddiant ar gydraddoldeb yn rhan o'r rhaglen gynefino ar gyfer staff newydd. Byddai staff yr Arolygiaeth Safonau Gofal wedi cwblhau eu hyfforddiant erbyn diwedd mis Mawrth ac roedd pob uwch was sifil wedi cael diwrnod a hanner o hyfforddiant. Y gobaith oedd y byddai holl Aelodau'r Cynulliad wedi cael hyfforddiant cyn yr etholiad nesaf.
- Cynhaliwyd ail Seremoni Gwobrwyau Anabledd, wedi'i hariannu'n rhannol gan y Cynulliad a'i threfnu gan Rwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon, ar 25 Hydref. Cynhaliwyd seremoni wobrwyo i ieuenctid yn ystod y dydd, a'r nod oedd dathlu arferion gorau ym maes cydraddoldeb.

Croesawyd y sylw a roddodd y wasg i'r digwyddiad, ac mae'n debyg y bydd rhaglenni'n cael eu darlledu amdano yn y Flwyddyn Newydd.
- Dyfarnwyd Gwobr y Castell i'r Cynulliad am ei waith yn hyrwyddo cyflogau cyfartal.
- Bu'r Gweinidog yn annerch Cynhadledd Anabledd Cymru yr wythnos flaenorol a bu nifer fawr o bobl yn bresennol ynddi. Roedd y diddordeb byw a ddangoswyd yn y materion a oedd yn cael eu trafod wedi gwneud argraff arno.
- Roedd y Gweinidog i fod yn bresennol mewn seremoni Wobrwyo ar gyfer Anabledd yng Nghaerdydd yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw.

1. Bu'r pwyllgor yn trafod y problemau a gododd Alun Cairns AC yn y Cyfarfod Llawn ynghylch cydbwysedd rhyw a chydraddoldeb Grwpiau Gorchwyl a Gorffen y Cynulliad. Cydnabuwyd ei fod yn bwysig i gyrff allanol gymryd rhan yn y grwpiau Gorchwyl a Gorffen, ond mai dim ond ar gyfer enwebiadau mewnol yr oedd Egwyddorion Nolan yn berthnasol ac nid ar gyfer cyrff allanol. Cyfeiriwyd at y ffordd yr oedd adran Datblygu Economaidd y Cynulliad yn ymdrin ag enwebiadau i grwpiau partneriaeth Amcan 1 er mwyn sicrhau cydbwysedd. Y gobaith oedd y byddai'r Cabinet yn ystyried yr hyn y gellid ei wneud i annog cyrff allanol i helpu i wella cydbwysedd o ran cydraddoldeb ym mhob un o'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Pwynt Gweithredu

- Byddai'r Gweinidog yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn y cyfarfodydd nesaf.
- Byddai'r Gweinidog yn cyflwyno papur ger bron y cyfarfod nesaf yn disgrifio sut mae gwahanol adrannau yn mynd ati i benodi aelodau i'r grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

**9.20 - 9.55am**

**Eitem 3**

**Y sefyllfa ddiweddaraf o ran gweithredu adroddiad McKenzie a'r papur ar recriwtio uwch-was sifil yn bennaeth ar yr Uned Polisi Cydraddoldeb**

**Papurau: EOC 07-02(p1)**

**EOC 07-02(p2)**

1. Cyflwynodd Peter Gregory, Cyfarwyddwr y Grwp Gwasanaethau Personel ac Adeiladau, adroddiad interim ar roi adroddiad MacKenzie ar waith, gan fod adroddiad llawn 6 misol i'w gyflwyno ddiwedd y flwyddyn. Ymddiheurodd nad oedd modd iddo gyflwyno papur ar werthuso'r ymarfer recriwtio allanol peilot a gynhaliwyd, ond dywedodd mai newydd

ddod i law yr oedd yr adroddiad gwerthuso.

2. Oherwydd yr oedi hwn, a'r ffaith fod llawer o'r staff yn newydd, yn anffodus, ni wnaed mwy i ddatblygu'r strategaeth recriwtio. Roedd staff wrthi'n gweithio ar hyn bellach a'r gobaith oedd y gellid cyflwyno strategaeth fras i'r Ysgrifenydd Parhaol erbyn y Nodolig a'i rhoi ar waith erbyn 1 Ebrill, gan ddibynnu ar hynt y trafodaethau gyda chynrychiolwyr yr undebau llafur.
3. Roedd y pwyllgor yn falch fod gwaith yn mynd rhagddo ar roi argymhellion yr adroddiad ar waith a byddai'n parhau i fonitro'r canlyniadau.
4. Roedd rhai aelodau'n siomedig na chafodd pob Aelod y Cynulliad hyfforddiant cydraddoldeb hyd yn hyn. Er na fyddai'n bosibl efallai i'w wneud yn orfodol, awgrymwyd y gellid cyhoeddi tabl i ddangos pa aelodau oedd wedi manteisio ar y cyfle hwn. Gallai grwpiau pob plaid hefyd annog eu haelodau i gael hyfforddiant. Nodwyd y gallai fod yn anodd i ACau nad ydynt yn byw yn Ne Cymru ddod o hyd i'r amser ar gyfer cael hyfforddiant. Os felly, byddai o gymorth rhoi hyfforddiant am gyfnodau byr ac o bosib i unigolion yn hytrach nag i grwpiau.

Pwynt Gweithredu

- Byddai'r Gweinidog yn gweithredu ar bryderon y pwyllgor ynghylch bod pob AC yn cael hyfforddiant cydraddoldeb ac yn gweld a fyddai'n bosibl ei wneud yn orfodol.
- Byddai'r Gweinidog yn rhoi mwy o wybodaeth iddynt am sut y gellid rhoi hyfforddiant cydraddoldeb i ACau am gyfnodau byrrach yn y cyfarfod nesaf.

1. Estynnodd Peter Gregory wahoddiad i Ms Rashpal Kaur Singh, yr ymgynghorydd a fu'n llywio'r ymarfer recriwtio ar gyfer pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb, i ymuno ag ef i drafod y pwnc hwnnw. Nid oedd wedi bod yn aelod o banel recriwtio ei hun, gan ei fod o'r farn nad oedd yn briodol iddo wneud hyn oherwydd fod rhai o'r ymgeiswyr yn uniongyrchol atebol iddo ar hyn o bryd.
2. Nododd y pwyllgor y gallai Ms Singh ateb cwestiynau manwl ond serch hynny, mai'r Cynulliad oedd yn gyfrifol am sicrhau atebolrwydd ynghylch y broses ac am sicrhau ei bod yn bodloni meini prawf cyfle cyfartal.
3. Roedd y pwyllgor yn frwd o blaid creu'r swydd newydd, sef pennaeth yr Uned Polisi Cydraddoldeb, ac roedd yn edrych ymlaen at weithio gyda Mrs Jasmin Hussein, yr ymgeisydd llwyddiannus. Nodwyd na fwriedwyd i'r sylwadau am y broses recriwtio ei hun adlewyrchu ar ba mor addas yr oedd ar gyfer y swydd nac ychwaith ar ei chymwysterau.
4. Dyma'r cwestiynau a godwyd a'r atebion a roddwyd ynghylch y broses recriwtio:

- Gofynnwyd i'r ymgeiswyr ddarparu CV a llythyr eglurhaol yn disgrifio sut y byddent yn bodloni'r meini prawf a amlinellwyd yn yr hysbyseb a'r pecyn cais. Roedd y meini prawf fel ffon fesur y gellid gosod y ceisiadau wrthynt a chawsant eu graddio'n unol â hynny. Mynegwyd pryder ynghylch y ffaith y gallai gofyn i ymgeiswyr ddarparu CV arwain at eu hasesu mewn ffordd llai cyson, o'i gymharu â gofyn iddynt gyflwyno'u ceisiadau ar ffurflen safonol.

- Cafodd profion seicosymetrig eu defnyddio yn y broses recriwtio ac roedd y pwyllgor o'r farn nad oedd profion o'r fath yn briodol ar y cyfan neu bod angen eu trin yn ofalus o leiaf.
- Gofynnodd y pwyllgor a oedd y meini prawf dethol yn cynnwys gofyniad i ddeall materion cydraddoldeb yng nghyd-destun penodol Cymru.
- Codwyd cwestiynau ynghylch cost yr ymarfer. Gofynnodd y pwyllgor am wybodaeth am gyfran y gost a wariwyd ar hysbysebion a ffioedd ymgynghori.
- Bron yn ddiwahân, cwmnïau recriwtio fu'n chwilio am ymgeiswyr i lenwi'r swyddi uwch ond yn anaml iawn, serch hynny - dros dwy flynedd dim ond dwywaith neu dair y defnyddiwyd y cwmnïau i recriwtio 16 o ymgeiswyr i swyddi uwch. Roedd modd cyfiawnhau'r gost ychwanegol gan fod ehangu cronfa'r ymgeiswyr yn ychwanegu at werth y broses. Yn yr achos penodol hwn, defnyddiwyd cwmnïau recriwtio oherwydd ei fod yn faes arbenigol a bu llawer o recriwtio. O ganlyniad, ni fyddai un hysbyseb yn denu digon o bobl â'r cymwysterau priodol i ymgeisio am swyddi. Cafodd yr ymgynghorwyr eu dewis oherwydd bod ganddynt brofiad arbenigol o recriwtio pobl i lenwi swyddi ym maes cydraddoldeb. Roedd yn golygu ailadrodd y broses, sef unwaith o du'r Cynulliad a'r eilwaith gan yr ymgynghorydd a oedd wedi rhoi cyngor ar faterion technegol. Daeth tua tri deg y cant o'r ceisiadau cychwynnol i law ar ôl i gwmnïau recriwtio gysylltu â'r ymgeiswyr.
- Roedd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn pryderu na ofynnwyd iddo gymryd rhan yn y broses, gan ei fod wedi brwydro'n galed i sefydlu'r swydd bwysig hon, a gallai fod wedi helpu i roi gwybod am gronfa o ymgeiswyr yng Nghymru. Dywedodd Comisiynydd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol y byddai'n fuddiol cynnal ymchwiliad annibynnol i'r broses recriwtio. Tynnwyd sylw at y ffaith fod aelodau o'r panel recriwtio yn dod o gefndiroedd amrywiol, gan gynnwys pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd y Comisiwn Hawliau Anabledd wedi cael cais i anfon cynrychiolydd, ond ni wnaed hyn hyd nes i ddyddiadau'r cyfweliadau gael eu pennu. Eglurwyd bod maint y panel wedi bod yn destun pryder ar y dechrau, ond daethpwyd i'r casgliad ei fod yn bwysicach cael panel cytbwys ac felly gwnaed cais am aelod ychwanegol.
- Dywedodd y Fforwm Bwrdd Llywodraeth Leol y dylai'r naw haen o gydraddoldeb fod yn rhan o brosesau recriwtio'r Cynulliad hyd yn oed os nad oedd hyn yn bosibl ym mhob panel cyfweld. Dylai'r Cynulliad roi cymorth ariannol i ddatblygu arbenigedd mewn haenau eraill megis oed a chrefydd, ac i sicrhau bod y meysydd hynny yn cael eu hystyried wrth recriwtio.
- Roedd y ffaith mai dim ond mewn rhai papurau yr oedd hysbysebion swyddi yn ymddangos yn destun pryder, ac awgrymwyd y dylid hysbysebu yn y Daily Post (ar gyfer pobl yn y Gogledd), cylchgronau Cymraeg, rhai papurau newydd trymion, ac ar y rhyngrwyd. Cafodd y pwyllgor wybod bod yr Is-adran Bersonel yn monitro nifer y ceisiadau a ddaw i law drwy hysbysebion yn y wasg a bod rhai papurau newydd yn cael llawer mwy o geisiadau nag eraill. Hysbysebwyd y swydd dan sylw mewn mwy o bapurau nag arfer, ac ar wefan yr ymgynghorydd recriwtio. Nododd y Gweinidog fod penderfyniadau ynghylch hysbysebion yn dibynnu ar natur y swydd, ond bod hysbysebu'n ddrud a'i fod yn bwysig cydbwyso'r gost â'r angen i ledaenu'r wybodaeth am swyddi gwag yn eang.
- Roedd y Gweinidog wedi cael gwybod am y broses recriwtio o'r dechrau i'r diwedd ac roedd profiad cadeirydd panel recriwtio a safon hynod uchel yr ymgeiswyr ar y rhestr fer wedi gwneud argraff ffafriol iawn arno.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai'r pwyllgor yn rhoi mwy o wybodaeth am yr arferion recriwtio a ddefnyddiwyd, gan gynnwys defnyddio CVs yn hytrach na'r ffurflenni cais arferol, dewis a rhoi'r meini prawf dethol ar waith, a faint o bobl ar y rhestr fer am y swydd dan sylw oedd wedi'u recriwtio gan ymgynghorwyr.
- Gellid rhoi dadansoddiad o gostau hysbysebu a ffioedd yr ymgynghorydd ar ôl cael cyngor ar unrhyw oblygiadau o ran cyfrinachedd masnachol.

**9.55 – 10.30am**

**Eitem 4**

**Mynediad i orsafoedd pleidleisio**

**Papur: EOC-07-02(p3) - Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol**

**Oes**

**EOC-07-02(p4) – Y Comisiwn Etholiadol**

**EOC-07-02(p5) - Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)**

1. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth bellach i'r cwestiwn o fynediad i orsafoedd pleidleisio a bu cynrychiolwr o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a SCOPE yn rhoi cyflwyniadau ar ôl i Amelia John o'r Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC) eu cyflwyno. Dyma oedd y prif bwyntiau:

- Roedd ffigurau a oedd yn benodol i Gymru yn yr arolwg 'Polls Apart' a gyflwynwyd i'r pwyllgor ym mis Mawrth 2002, ond roedd yr arolwg ar raddfa fach. Roedd cyfle i gynnal arolwg a fyddai'n benodol i Gymru ar gyfer etholiadau'r Cynulliad y flwydyn nesaf. Roedd y DRC yn awyddus i wneud hyn, i ddarparu gwaith ymchwil a fyddai'n sail i etholiadau yn y dyfodol, a byddai'n croesawu cyfraniad ariannol gan y Cynulliad. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, SCOPE ac aelodau o'r pwyllgor o blaid hyn. Roedd Scope o blaid gwerthusiad annibynnol o'r strwythurau pleidleisio sy'n rhoi llais i'r pleidleiswyr mewn ffordd sy'n unigryw i Gymru.
- Roedd y Comisiwn Hawliau Anabledd a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cyfarfod sawl gwaith i edrych ar ffyrdd o wneud y broses ethaethol yn fwy hygyrch. Roeddent yn cynnig hyfforddi dirprwy swyddogion etholiad ar y rhwystrau corfforol ac agweddol ac yn ceisio cael mwy o gyrff anabledd i gymryd rhan yn y gwaith hwnnw. Roedd WLGA hefyd yn paratoi canllawiau ysgrifenedig i staff y gorsafoedd pleidleisio.

- Roedd Steve Thomas a Naomi Alleyne o WLGA wedi ysgrifennu at yr awdurdodau lleol ym mis Awst yn gofyn sut roeddent yn gwella mynediad i orsafoedd pleidleisio ac roedd 18 o'r 22 wedi ymateb. Mae arferion yn amrywio ledled Cymru ond roedd yr awdurdodau lleol o ddifrif ynghylch y broblem. Roedd yn destun pryder i lawer nad oedd mynediad i rai gorsafoedd ac roeddent yn chwilio am ffyrdd eraill o wneud hyn. Roedd rhai awdurdodau wedi sefydlu swyddogion neu weithgorau penodol, roeddent yn cynnwys cyrff anabledd ac yn defnyddio rhestrau gwirio i asesu mynediad. Roedd un awdurdod yn rhoi adborth unigol i'w swyddogion etholiad yn y gorsafoedd pleidleisio. Ymgynghorwyd â chynrychiolwyr lleol etholedig cyn dod o hyd i leoliadau eraill a chymryd mesurau dros dro megis gosod rampiau. Roedd asesu risg o ran adeiladau yn cael ei gynnal, a rhoddwyd canllawiau yr RNIB i staff y gorsafoedd pleidleisio ynghyd â hyfforddiant ac arweiniad arall. Roedd un awdurdod wedi gofyn i staff y gorsafoedd pleidleisio gadw llygad ar broblemau megis mynediad i feysydd parcio. Roedd gwybodaeth am fynediad yn cael eu hanfon at bleidleiswyr.

- Cafodd problemau eu nodi hefyd. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, nid oedd modd sicrhau mynediad i 36 o'r 78 o orsafoedd pleidleisio, gan fod y rhan fwyaf ohonynt yn adeiladau preifat sy'n ei gwneud yn anodd i'w haddasu. Roedd y topograffi yn peri problem - ym Merthyr Tudful nid oedd y rampiau dros dro yn datrys y problemau i gyd o ran gostwng y graddiant a sicrhau mynediad i'r ardal o gwmpas yr orsaf bleidleisio yn hytrach nag i'r adeilad ei hun. Mewn rhai ardaloedd gwledig, roedd yn anodd cael hyd i adeiladau addas ac efallai nad yw'r gymuned leol bob amser yn fodlon ail-ddynodi adeiladau i'w defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio. Roedd pleidleisio drwy'r post yn un dewis ond roedd yn well gan rai bleidleisio yn yr orsaf.
- Trafodwyd pa mor addas oedd cabannau a rampiau dros dro a chafwyd awgrymiadau ynghylch sut y gellid dod o hyd i gyfleusterau priodol. Roedd angen buddsoddiad cyfalaf enfawr - mor belled cafodd y gwelliannau'u gwneud yn raddol ac o ystyried y galwadau ar gyllidebau cyfalaf ni fyddai gofyniad bob 4 blynedd yn cael yr un flaenaoriaeth â gofyniad parhaus.

- Roedd parcio yn broblem fawr ledled y DU ac yn un anodd i'w datrys. Dylid annog awdurdodau i ddarparu mwy o lefydd parcio i'r anabl ar ddiwrnod pleidleisio.

- Tynnodd CLLC sylw at bryderon ynghylch y ffaith nad oedd cynrychiolaeth gyfrannol a'r system restrau'n ei gwneud yn hawdd i ddefnyddio papurau pleidleisio Braille. Nododd eraill bod angen mwy o hyfforddiant ar staff y gorsafoedd pleidleisio i ddefnyddio'r papurau hyn.

- Dywedodd Gwilym Morris, cyd-awdur ‘Polls Apart’, sef adroddiad ar fynediad i ddemocratiaeth, nad oedd dros 90 y cant o orsafoedd pleidleisio yn hygyrch yn y gorffennol. Yn yr etholiad y llynedd, 70 y cant oedd y ffigur ac ni allai ddychmygu y byddai unrhyw grwp arall yn y gymdeithas yn derbyn hynny. Roedd yn rhoi cyngor ar sicrhau mynediad ledled y DU ac nid oedd erioed wedi dod ar draws ward lle bu'n amhosibl gwella mynediad, yn ffisegol ac o ran y problemau sy'n ymwneud â namau cyfathrebu.

- Bu trafodaeth am bleidleisio drwy'r post a oedd wedi cynyddu'n ddramatig. Roedd WLGA o

blaid gwella'r system pleidleisio drwy'r post a chael awdurdodau lleol i ystyried rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i ddefnyddio mwy o gofrestrau treigl. Roedd llawer o gynghorau'n cymryd camau proactif i hyrwyddo pleidleisio drwy'r post, gan ddefnyddio print bras a phapurau pleidleisio Braille ac roedd un ardal yn defnyddio ffurflenni unlliw ar gyfer pobl sy'n ddall i liwiau. Roedd angen rhoi mwy o wybodaeth i bobl - roedd llawer o bapurau pleidleisio'n cael eu difetha oherwydd nad oedd pobl yn eu deall ac nid oedd papurau ar gael mewn print bras oni bai bod pobl yn gofyn amdanynt. Gallai trafod papurau pleidleisio beri problemau i bobl â dwylo arthitig a dylid adolygu'r iaith sy'n cael ei defnyddio ar y papurau. Nid oedd y system ddatganiadau yn foddhaol a dylid rhoi sylw i'r system pleidleisio drwy'r post yn gyffredinol.

- Roedd y Gweinidog a'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn pryderu y gallai rhai awdurdodau lleol ddefnyddio diffyg mynediad fel esgus i gau'r gorsafoedd pleidleisio. Yn etholaeth y Gweinidog ym 1999, roedd 3 gorsaf bleidleisio ar gyfer 8,000 o bleidleiswyr, hynny'n arwain at resi hir. Dim ond 1 gorsaf a fyddai'n yr un ardal yn 2003. Byddai pleidleisio drwy'r post yn hanfodol os na ellid datrys y broblem hon. Tynnodd WLGA sylw at y ffaith nad oedd bob amser yn hawdd bodloni'r pedwar ar ddeg o feini prawf manwl yr ystyriwyd eu bod yn addas ar gyfer gorsaf bleidleisio.

- Roedd gofyniad statudol i wneud ysgolion yn hygyrch erbyn 2010 a phe byddai WLGA yn rhoi mwy o flaenoriaeth i hynny efallai y byddai'n cael effaith ar yr ysgolion sy'n cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio. Ar yr un pryd, nodwyd bod rhai'n gwrthwynebu defnyddio ysgolion fel gorsafoedd pleidleisio.

- Nodwyd bod perygl y gallai grwp nad yw'n arfer ei hawl democrataidd i bleidleisio'n rheolaidd gael ei anwybyddu'n rheolaidd gan y sawl sy'n cael ei ethol. Roedd yn bwysig ymateb i hyn a cheisio neilltuo arian yn y gyllideb i ymdrin â'r problemau hyn. Yn aml, roedd pethau'n newid oherwydd bod swyddogion etholiad unigol yn frwd ac yn wybodus ac roedd yn hanfodol hyfforddi'r swyddogion hyn.

- Nododd DRC fod atebion ymarferol ar gael, ac o ystyried nifer y bobl anabl yng Nghymru a'r nifer gynyddol o bleidleiswyr oedrannus, roedd yn bwysig dod o hyd i ffyrdd o'u cyrraedd. Cydnabu'r pwyllgor fod gorsafoedd hygyrch, wedi'u goleuo'n dda heb rwystrau y gellid baglu drostynt, yn golygu gwell gwasanaethau i'r anabl a gwell gwasanaethau i bawb.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog i ofyn iddo ddyrannu arian er mwyn cynnal arolwg yn 2003. Byddai'r arolwg yn ystyried safbwynt y defnyddwyr, gan astudio arferion gorau ac argymell atebion i broblemau sy'n ymwneud â mynediad.

**<u>10.30 – 10.45 am</u>**

**Eitem 5**

**Cyflwyniad gan y Swyddfa Gartref ar ddefnyddio tocynnau i gael budd-daliadau**

1. Bu Jessica Gregson o'r Swyddfa Gartref yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ar ddarpariaethau'r Mesur Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches sy'n ymwneud â llety. Dyma oedd prif bwyntiau ei chyflwyniad a'r pwyntiau a godwyd wrth drafod:

- Cafodd Mesur Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches gydsyniad y Frenhines ar 8 Tachwedd 2002 a byddai'r Ddeddf yn cael ei rhoi ar waith ar 8 Ionawr 2003. Anfonwyd canllawiau i'r awdurdodau lleol yn dilyn ymgynghoriad.
- Roedd Cymal 53 o'r Ddeddf ar 'beidio â chefnogi a rhoi'r gorau i gefnogi' yn rhoi Atodlen 3 ar waith sy'n ymdrin â phobl sy'n defnyddio tocynnau i gael budd-daliadau, yn disgrifio'n fanwl yr amgylchiadau sy'n ymwneud â darparu llety neu roi'r gorau i wneud hynny a chymorth ariannol i brynu tocynnau teithio'n ôl adref. Roedd yr atodlen yn cyfeirio at bedwar math o bobl, sef: y rhai sydd â statws dinasyddiaeth neu statws ffoaduriaid mewn Aelod-Wladwriaeth arall yn yr UE/AEE, ceisiwyr lloches sydd wedi methu cael lloches ac heb gydymffurfio â'r cyfarwyddiadau i symud, a'r rhai sy'n bresennol yn y DU yn anghyfreithlon.
- Mae'r Ddeddf yn egluro'r gyfraith i awdurdodau lleol er mwyn iddynt ddelio'n gytbwys â phobl yn y categorïau hynny sy'n defnyddio tocynnau i gael budd-daliadau. Mae'r term hwn yn cyfeirio at y nifer gynyddol o bobl, yn benodol pobl o darddiad Somali sydd â statws preswyl mewn gwlad arall yn yr UE, sy'n cyrraedd y DU ac yn gwneud cais am fudd-daliadau er nad ydynt yn gymwys i'w cael oherwydd iddynt fethu'r profion preswyl rheolaidd. Y gred oedd eu bod yn cael eu denu i'r DU gan y cymunedau Somali sydd eisoes wedi'u sefydlu yn y DU a'r syniad fod cymdeithas yn y DU yn fwy ceidwadol nag yng ngwledydd eraill yr UE lle roedd hawl iddynt fyw.
- Roedd yn costio llawer i'r awdurdodau lleol ddelio â phobl o'r fath. Ymhlith yr ardaloedd hyn roedd Caerlyr, Sheffield, Birmingham, Manceinion a Llundain. Yn Birmingham, gwariwyd £2.8 miliwn ar y rhai y mae Atodlen 3 yn berthnasol iddynt, ac roedd rhoi'r rheolau sy'n unol â'r rhai yn y ddeddfwriaeth newydd ar waith wedi gostwng y gwariant hwn i £1.7 miliwn. Ym mis Ebrill 2002 roedd Sheffield wedi mabwysiadu'r mesurau yn y Ddeddf newydd, ac wedi llwyddo i ostwng ei wariant o £563,000 yn 2001-2002 i £260,000 yn 2002-2003. Roedd achosion llys hefyd wedi dylanwadu ar gyflwyno'r ddeddfwriaeth.
- Roedd y ddeddfwriaeth yn debyg i'r hyn yr oedd yr Alban ac Iwerddon wedi'i fabwysiadu, ac roedd y mathau o gymorth ariannol a ddaeth i ben o ganlyniad yn ymwneud yn bennaf â llety a lles. Byddai plant a phobl sy'n agored i niwed, er enghraifft pobl ag anghenion arbennig, yn parhau i gael cymorth tymor byr hyd nes iddynt ddychwelyd adref. Roedd y newidiadau hefyd yn darparu ar gyfer troseddau sy'n dwyn cosbau mewn achosion pan nad oedd pobl yn derbyn tocynnau teithio er mwyn dychwelyd adref.
- Roedd y polisi'n peri pryder mawr i'r aelodau a fu'n holi sut y gallai effeithio ar Gymru, yn benodol mewn perthynas â'r cymunedau Somali sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru. Roedd yn anodd darparu ffigurau gan fod yr awdurdodau lleol yn dweud bod y bobl dan sylw yn tueddu i gofrestru mewn gwahanol lefydd o dan enwau gwahanol. Roedd peth tystiolaeth fod hyn yn

digwydd i raddau yng Nghaerdydd, ond nid yn unlle arall yng Nghymru. Tynnwyd sylw at y ffaith bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes yn rhoi'r mesurau o dan Atodlen 3 o'r Ddeddf ar waith os oedd angen gwneud hynny yn eu hardal.
- Mynegwyd pryder hefyd ynghylch a fyddai gwragedd beichiog yn cael eu cynnwys yn y categori o bobl sy'n agored i niwed.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai Jessica Gregson yn rhoi gwybod i'r pwyllgor ynghylch a fyddai'r ddeddfwriaeth newydd yn effeithio ar wragedd beichiog ac yn rhoi unrhyw ffigurau sydd ar gael ar y nifer sy'n defnyddio tocynnau i gael budd-daliadau mewn gwahanol ardaloedd yng Nghymru.

**10.45 – 10.55am**

**Eitem 6**

**Cynllun Cydraddoldeb Hiliol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Papur: EOC 07-02(p6)**

1. Hysbysodd Peter Gregory y pwyllgor am y datblygiadau diweddaraf mewn perthynas â Chynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad. Roedd llawer o waith yn mynd rhagddo ar ddatblygu'r cynlluniau gweithredu sy'n sail i'r cynllun ac roedd bwrdd prosiectau wrthi'n cydweithio â'r CRE i weld sut i gyflwyno mesurau'n ymwneud â chydradoldeb hiliol heb iddo fynd yn rhy fiwrocrataidd. Roedd cydweithwyr o'r Cynghorau Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru wedi trafod y Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2002 â'r Uned Polisi Cydradoldeb, a bellach roeddent yn gwybod llawer mwy amdani.
2. Roedd y pwyllgor yn edrych ymlaen at gael cyfle arall i ystyried y cynllun a rhoi fersiwn drafft ohono ar waith yn y Flwyddyn Newydd, cyn iddo fynd yn destun ymgynghori ym mis Chwefror.
3. Roedd cynllun cydradoldeb hiliol wrthi'n cael ei ddatblygu'n gyntaf cyn iddynt symud ymlaen i gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd at ddatblygu cynlluniau tebyg yn ymwneud ag anabledd a rhyw. Yn y cyfamser, roedd croeso i wahoddedigion o'r Comisynau eraill gymryd rhan yn y broses bresennol pe byddent am wneud hynny.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai'r Pwyllgor yn cyfarfod yn y Flwyddyn Newydd i ystyried llunio papur drafft terfynol ar roi'r cynllun cydraddoldeb hiliol ar waith.

**10.55 – 11.10 am**

**Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud**

**11.10 – 11.40am**

**Eitem 7**

**Ystyried Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Hawliau Anabledd (DRC)**

**Papur: EOC 07-02(p7)**

1. Gwnaeth Will Bee a Kevin Fitzpatrick o'r Comisiwn Hawliau Anabledd roi gwybod i'r Pwyllgor am waith y Comisiwn dros y flwyddyn ddiwethaf. Cymerwyd camau breision yn ystod y flwyddyn, gan symud o'r cyfnod sefydlu i gyflawni newidiadau ar gyfer pobl anabl yng Nghymru. Nododd Kevin Fitzpatrick dair tuedd yng ngwaith y DRC: gweithio gydag unigolion a phartneriaethau a chodi proffil. Dyma oedd prif bwyntiau ei gyflwyniad a'r pwyntiau a godwyd wrth drafod:

- Mynegwyd pryder ynghylch faint o bobl byddai'n manteisio ar wasanaethau'r DRC ar y dechrau, ond mae'r duedd hon bellach wedi ei gwrth-droi. Yn y flwyddyn dan sylw roedd 7 y cant o'r galwadau a wnaethpwyd i'r DRC ledled y DU wedi dod o Gymru, ac roedd 6.1 y cant o'r gwaith achos a gyfeiriwyd (84 achos) yn dod o Gymru. Roedd hyn yn welliant sylweddol oherwydd bod lefelau'r ceisiadau am fudd-daliadau yn dangos bod gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl.
- Gwnaeth astudiaeth o'r gwaith achos ddangos llawer o enghreifftiau lle'r oedd pobl wedi gallu datrys y broblem yn foddhaol trwy setlo y tu allan i'r llys. Gwnaeth y pwyllgor nodi bod achosion llys yn gostus iawn ac yn peri straen emosiynol, ond bod cynnal achosion yn bwysig yn arbennig o ystyried rhai o'r enghreifftiau o gamwahaniaethu a nodir yn ei adolygiad blynyddol. Dywedodd y DRC ei bod hi'n well gan lawer o bobl fod yn anhysbys. Gyda'r gyfraith achosion cyflogaeth roedd hi'n rhatach i'r cyflogwyr setlo y tu allan i'r llys heb gyhoeddusrwydd anffafriol, ond roedd y DRC yn dymuno gweld achos â phroffil uchel yn mynd trwy'r llys.
- Roedd gweithio mewn partneriaeth yn helpu i gael effaith sylweddol mewn rhai meysydd, gan gynnwys dyfodiad y Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd. Gwnaeth y Ddeddf hon yn iawn am wendidau'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd trwy ymestyn i gynnwys gwahaniaethu ym maes addysg. Roedd codau ymarfer wedi helpu i egluro'r mater i'r sefydliadau addysg, ond roedd mwy o waith i'w wneud ac roedd y DRC yn gobeithio gweld effaith drawiadol ar ysgolion yng Nghymru. Gwnaeth Cymru gyfrannu at 16% o'r holl ymatebion ar yr ymgynghoriad o'r cod ymarfer drafft ar gyfer ysgolion, a chyfrannodd at 10% o'r ymatebion ar gyfer y cod ôl-19 - sy'n gynnydd sylweddol. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r Cynulliad, 11 sesiwn hyfforddi gydag Estyn a datblygwyd deunyddiau cwricwlwm newydd gydag ACCAC. Mae cydweithwyr yn rhannau eraill o'r DU wedi gweld bod Cymru'n cydnabod y Ddeddf i raddau uwch na mannau eraill. Gwnaeth y DRC gadarnhau i'r pwyllgor ei fod yn targedu

llywodraethwyr ysgol fel prif gynulleidfa a'i fod wedi cyflogi cyn athro i weithio ar hyn. Roedd y swyddog yn canolbwyntio'n bennaf ar gysylltu wyneb yn wyneb â chynrychiolwyr yr AALl ond roedd canllawiau hefyd wedi'u cyhoeddi ar gyfer llywodraethwyr.

- O ran canllawiau cynllunio dan y ddeddfwriaeth newydd, roedd y DRC yn cydnabod bod gwaith da wedi'i wneud ar anghenion arbennig ond y dylai'r Cynulliad gyhoeddi canllawiau cynllunio cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi rhwystro'r ysgolion rhag gweithredu'r Ddeddf.
- Erbyn 2004 byddai'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar y darparwyr adnoddau, nwyddau a gwasanaethau i wneud newidiadau ffisegol i sicrhau mynediad rhesymol i bobl anabl. Roedd y DRC am weld newidiadau yn yr amgylchedd ac nid mwy o arian i'r cyfreithwyr yn unig am ddatrys achosion llys. Nid oedd rhaid i'r datrysiadau fod yn gostus, ac fe allai dychymyg ac agwedd bositif wneud llawer o wahaniaeth. Roedd y DRC yn cydweithio â phartneriaid â diddordeb er mwyn hysbysu'r busnesau o'u dyletswyddau. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfarfod y Fforwm TUC/CBI, bod yn rhan o brosiect Awdurdod Datblygu Cymru ar gydraddoldeb mewn busnesau bach a chanolig, a chydweithio â CADW ar ganllawiau ar gyfer mynediad i adeiladau rhestredig. Roedd hi'n bwysig cydnabod bod pobl anabl yn pryderu am estheteg hefyd, ac nad oedd y rhan fwyaf o'r materion mynediad yn ymwneud â rampiau, ond â nodweddion ffisegol eraill yr adeiladau.
- Roedd menter 'Barriers Coming Down' y Cynulliad hefyd wedi hysbysu pobl am eu dyletswyddau. Roedd rhaid i'r DRC barhau i hyrwyddo'r elfen fusnes - sef y byddai busnesau'n colli cwsmeriaid anabl pe na fyddent yn cydymffurfio.
- Cafodd gwaith ei wneud gyda phartneriaid i ganolbwyntio ar agweddau penodol fel y gorsafoedd pleidleisio, a chydweithiwyd gydag Anabledd Cymru, Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Phrifysgol Bangor ar ganllaw terminoleg ar gyfer cyfieithwyr Cymraeg. Roedd y DRC hefyd wedi bod yn gweithio gydag uned cydraddoldeb newydd yr WLGA ar ei chynllun gwaith
- Roedd y gwaith codi proffil yn cynnwys bron 100 o achlysuron a sylw'r cyfryngau yn ystod lansio'r cod ymarfer newydd.
- Roedd newid agwedd yn parhau i fod yn gwbl hanfodol, ac roedd y DRC am i bobl edrych o'r newydd ar faterion anabledd ac i gymryd agwedd bositif tuag at fater syml o gyfiawnder cymdeithasol.
- Gwnaeth y pwyllgor nodi pwysigrwydd hyfforddiant cydraddoldeb a chodi ymwybyddiaeth yn y sectorau cyhoeddus a phreifat. Gobeithiwyd y byddai'r hyfforddiant yn llai tameidiog ac yn cael ei gysoni. Nid oedd modd i'r DRC gynnig hyfforddiant i bawb, felly roedd yn canolbwyntio ar annog y bobl sy'n gwneud penderfyniadau i newid, a chynnig archwiliadau a hyfforddiant ar fynediad. Er enghraifft trwy gysylltu â grwpiau fel gwestywyr gellid pwysleisio'r farn nad oedd rhaid addasu adeiladau ar gyfer pobl anabl mewn ffordd a fyddai'n allgau pobl eraill. Ceisiodd y DRC ddefnyddio cynulleidfaoedd a oedd eisoes wedi dod ynghyd trwy siarad mewn digwyddiadau a drefnwyd gan y Cynulliad neu gyrff eraill. Roedd y DRC hefyd yn defnyddio cyllid Cymunedau'n Gyntaf i ddechrau prosiectau a fyddai o fudd i bobl anabl.
- Cafwyd ymholiad ynghylch rhoi cymorth i bobl awtistig, ac amlygodd hyn wendid yn y Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd o ran darparu gwasanaethau ar gyfer anableddau penodol. Er nad oedd gwasanaeth tebyg ar gael i'r bobl nad ydynt yn anabl, ni fyddai problem sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn torri'r gyfraith. Byddai'r Ddeddf Hawliau Dynol yn berthnasol yma, er enghraifft wrth feirniadu ansawdd bywyd. Ond ar hyn o bryd mae'r materion hawliau dynol

wedi'u cymysgu â'r trafodaethau ynghylch corff cydraddoldeb unigol.

- Nodwyd bod y DRC wedi rhoi cyflwyniadau gerbron pwyllgorau rhanbarthol y Cynulliad yn ystod y flwyddyn a'u bod wedi bod yn ddefnyddiol iawn.
- Gwnaeth y Pwyllgor longyfarch y DRC am wneud mor dda a dymunodd lwyddiant iddo yn y dyfodol.

Pwynt Gweithredu:

- Byddai'r pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i fynegi ei bryderon nad oedd y canllawiau cynllunio ar gyfer gweithredu'r Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau wedi eu cyhoeddi eto.

**11.40 - 12.05pm**

**Eitem 8**

**Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Addysg - Vikki Seddon, Wrecsam**

1. Cyflwynodd Vikki Seddon dystiolaeth i'r adolygiad ynghylch y gwaith y bu'n gwneud am 8 mlynedd yng Ngwasanaeth Addysg y Crwydriaid yn y Gogledd Ddwyrain. Bu'n gweithio yn Wrecsam a sir y Fflint a chynigwyd gwasanaeth cynghori i Sir Ddinbych a Chonwy. Dyma oedd prif bwyntiau ei chyflwyniad:

- Mae tîm gwasanaeth Addysg Crwydriaid Wrecsam yn cynnwys athro/cydlynydd, athro, gweinyddes feithrin, gweithiwr cymdeithasol addysg a gweithiwr ieuenctid, y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n rhan amser. Roedd rhwng 40 a 90 o blant yn cael cymorth, a 54 oedd y nifer ar hyn o bryd. O'r 24 teulu oedd yn cael cymorth yn Wrecsam, roedd 11 yn byw ar safle swyddogol, 3 mewn carafannau ar eu tir eu hunain ac roedd y gweddill yn byw mewn tai. Roedd y gwasanaeth yn gweithio gyda 5 ysgol gynradd, 3 ysgol uwchradd ac un ysgol arbennig.
- Dyma'r prif faterion yr oeddent yn eu hwynebu: cofrestru, rhagfarn, y traddodiad bod plant sipsiwn crwydrol yn gadael ysgol yn gynnar, a bodloni anghenion addysgol plant sipsiwn crwydrol tra'u bod yn yr ysgol.
- Roedd cofrestru'n anodd i deuluoedd symudol. Roedd llawer o deuluoedd yn ymweld ac yn aros chwe wythnos cyn symud ymlaen. Roedd oedi wrth gofrestru yn broblem a allai olygu bod plant yn gadael ardal heb fynd i'r ysgol a bod yr AALl wedi methu a chyflawni ei ddyletswydd o ddarparu addysg.
- Yn aml mae'r prifathrawon a'r staff yn amharod i gofrestru plant. Mewn un achos roedd 5 allan o 6 ysgol wedi bod yn amharod i gofrestru plant sipsiwn crwydrol, gan ddweud yn aml ei bod hi'n ormod o drafferth gan nad oeddent yn aros am hir.
- Gallai staff, disgyblion yr ysgol a'r gymuned leol fod yn rhagfarnllyd. Roedd hi'n bwysig bod athrawon yn cael ei briffio ar hanes addysg blaenorol y plant, ar eu hawliau a dyletswydd yr ysgolion i'w haddysgu. Hefyd roedd angen i'r athrawon wybod nad oedd angen addysg anghenion

arbennig ar y plant fel arfer, ond bod ganddynt anghenion penodol. Roedd yn rhaid i'r ysgolion gael ethos o groesawu newydd-ddyfodiaid. Mewn un achos roedd teulu wedi cyfarfod â'r prifathro ac wedi prynu dillad ysgol newydd ar y dydd Gwener. Ond yna gwnaeth y rhieni lleol arwyddo deiseb, lobïo'r cynghorwyr a'r heddlu ac erbyn y dydd Llun roedd y teulu o sipsiwn crwydrol wedi eu gyrru allan.

- Roedd hi'n draddodiadol i blant adael yr ysgol yn gynnar, erbyn eu bod yn 11 neu 12 oed fel arfer, neu'n gynt - yn enwedig os oedd y plant wedi bod yn mynd i'r ysgol yn gyson a bod ganddynt ddigon o sgiliau sylfaenol i helpu yn y busnes teuluol. Roedd hyn yn rhwystr i gyrhaeddiad academaidd. Yn Wrecsam nid oedd un o blant y sipsiwn crwydrol wedi ennill TGAU nac wedi cwblhau blwyddyn 11. Roedd disgwyl i'r bechgyn adael yr ysgol i ddysgu sgiliau tarmacio neu osod palmentydd ayb gan eu tadau. Efallai fod rhai'n mwynhau yn yr ysgol ac am aros ymlaen, ond bod perthnasau hyn ac ymwelwyr yn pwyso arnynt i adael. Roedd tueddiad i'r merched gael eu paratoi i fod yn famau o oed cynnar iawn. Roedd yr uned deuluol yn gryf iawn ac roedd digwyddiadau teuluol bob amser yn bwysicach na'r ysgol. Er mwyn iddynt ymddiried ynoch a deall y posibiliadau y mae addysg ffurfiol yn eu cynnig i blant, roedd hi'n bwysig i gysylltu'n gyson â'r teuluoedd.
- Roedd gofyn i'r ysgolion bontio'r bylchau yn addysg o ganlyniad i symud o le i le, a rhaid iddynt hefyd ystyried profiadau gwahanol y plant. Yn aml y fam sy'n penderfynu a yw'r plentyn yn mynd i'r ysgol. Gall y menywod hyn ymddangos yn benderfynol iawn, ond roedd hyn yn angenrheidiol i sicrhau bod anghenion eu plant yn cael eu bodloni.
- Roedd pa mor aml y mae plant yn mynychu'r ysgol yn amrywio, gyda rhai plant yn dechrau'r ysgol yn hwyr - yn 9 neu'n 10 oed - ac angen cymorth ychwanegol arnynt. Weithiau roedd diffyg addysg ffurfiol y rhiant yn ei gwneud hi'n anodd iddynt helpu eu plant i ddarllen neu i wneud gwaith cartref, ac roedd angen yr ysgolion arnynt i'w cefnogi.
- Roedd plant y sipsiwn crwydrol hefyd yn gallu teimlo nad oedd prif ffrwd y cwricwlwm yn berthnasol i'w ffordd o fyw, ac fel ym mhob diwylliant dylid cydnabod hyn yn yr adnoddau dysgu, yn y pynciau a'r arddangosfeydd.
- Rhoddwyd enghreifftiau o blant sipsiwn crwydrol a oedd wedi cael profiadau addysgol cwbl wahanol ac wedi'i llywio gan eu ffordd o fyw a'u diwylliant. Gan gynnwys un enghraifft o deulu merch ag anghenion arbennig nad oedd am iddi fynd i ysgol arbennig oherwydd ystyriwyd mai ysgol ar gyfer pobl sâl ydoedd, ac y byddai'n effeithio ar y posibilrwydd ohoni'n priodi. Yn yr achos hwn ceisiodd yr AALl ei chadw mewn ysgol gyffredin a lluniwyd contract â'r teulu i'w chadw yno am 3 diwrnod yr wythnos. Mewn achos arall amharwyd ar addysg bachgen er mwyn iddo fynd i deithio gyda'i ewythr, ond fe'i ail-gofrestrwyd a chytunwyd ar gwricwlwm amgen a oedd yn cynnwys adeiladu, coginio a phêl-droed yn y gymuned.
- Dyma rai enghreifftiau o arfer gorau wrth addysgu plant Sipsiwn Crwydrol: ysgol groesawgar a chynhwysol, mynd i'r ysgol yn gyson; annog rhieni i anfon plant oed meithrin i'r ysgol; hyfforddiant mewn swydd i staff a darparu cwricwlwm hyblyg a oedd yn adlewyrchu amrywiaeth diwylliannol.
- Roedd gofyn cael strategaethau arbennig ar gyfer plant Sipsiwn Crwydrol o oed ysgol uwchradd, gan gynnwys paratoadau ar gyfer eu trosglwyddo o Flwyddyn 6, defnyddio cynorthwywyr yn yr ystafell ddosbarth, helpu gyda'r gwaith cartref, cyswllt rhwng yr ysgol a'r cartref a defnyddio amserlenni hyblyg a chwricwlwm amgen.

- Mae AALl Wrecsam yn darparu cludiant er mwyn i blant sipsiwn crwydrol fynd yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.

**12.05 – 12.25pm**

**Adolygiad Sipsiwn Crwydrol - Addysg - Ysgol Monkton, prosiect Canolfan Ddysgu Priory**

1. Gwnaeth William Rees, Pennaeth Ysgol Monkton, a Beverley Stephens, athrawes yn yr ysgol, roi tystiolaeth ar gyfer yr adolygiad. Dyma oedd prif bwyntiau eu cyflwyniad:

- Roedd Ysgol Monkton a'i staff wedi ymrwymo i addysg plant sipsiwn ac roeddent yn defnyddio'r term Sipsiwn oherwydd roedd y plant yn yr ardal yn falch o gael eu disgrifio felly.
- Yn ôl mynegrif y Cynulliad o amddifadedd lluosog Cymru, nodwyd mai ward gyngor Monkton yw'r 10$^{fed}$ mwyaf amddifad o ran incwm, y 9$^{fed}$ mwyaf amddifad o ran cyflogaeth a'r 5$^{ed}$ mwyaf amddifad o ran tlodi plant (roedd 69 y cant o'r plant yn cael prydau ysgol am ddim). Yn gyffredinol daeth yn 14$^{eg}$ allan o 865 yng Nghymru ac roedd ganddo'r lefelau uchaf o anghenion addysgol arbennig yn y wlad.
- Roedd rhwng 20 a 25 y cant o ddisgyblion Monkton yn aelodau o'r gymuned sipsiwn ac roedd eu diwylliant â'u cysylltiadau teuluol clos o fewn y teulu estynedig yn bwysig iawn. Roedd y teuluoedd yn wyliadwrus iawn o'r awdurdodau ac nid yw'n syndod nad oeddent yn barod i rannu gwybodaeth. Roedd hi'n bwysig ennyn eu hymddiriedaeth.
- Nid oedd ganddynt feddwl mawr o addysg y tu hwnt i lythrennedd a rhifedd sylfaenol, ac er mwyn newid hyn bydd rhaid ychwanegu at werthoedd a diwylliant presennol y teuluoedd sipsiwn.
- Yn ardal Monkton roedd tuedd i'r sipsiwn briodi o fewn eu cymuned ac roedd rhai sipsiwn yn symud o'r carafannau i dai, ond hefyd yn ôl i'r carafannau.
- Cyn i'r prosiect ddechrau ym 1996, roedd 95 y cant o blant 7-11 oed yn mynd i'r ysgol ond roedd y nifer yn llai yn ystod mis Mai i Hydref (yr adeg draddodiadol ar gyfer gwaith tymhorol fel cynhaeafu hopys) a dim ond 5 y cant oedd yn mynd i'r ysgol uwchradd. Methiant fu ymgais y swyddogion presenoldeb i newid hyn.
- Gwnaeth yr ysgol gais am gyllid dan adran 488 o Ddeddf Addysg 1996 i sefydlu Prosiect Priory, ac roeddent yn defnyddio safle'r ysgol gynradd i addysgu plant nad oeddent yn mynd i'r ysgol uwchradd
- Datblygwyd cwricwlwm cyfochrog a oedd yn pwysleisio llythrennedd, rhifedd a TG. Anogwyd cofrestru plant yn yr ysgol uwchradd a sefydlwyd sesiynau llythrennedd i'r teulu. Rhoddwyd cymorth yn y dosbarth i'r babanod a threfnwyd ymweliadau ag ysgolion uwchradd ar gyfer rhieni a disgyblion. Nodwyd bod llawer o rieni sipsiwn yn pryderu ynghylch addysg rhyw, mynediad at gyffuriau a pherygl o feichiogrwydd yn eu harddegau os yw eu plant yn mynychu ysgol uwchradd.
- Darparwyd lleoliadau NVQ o fewn yr ysgol i aelodau'r teuluoedd sipsiwn er mwyn iddynt weithio fel cynorthwywyr dysgu a chynorthwywyr gweinyddol.
- Mae'r ysgol hefyd yn darparu hyfforddiant i basio prawf theori gyrru oherwydd bod hyn yn bwysig iawn i'r sipsiwn ifanc.

- Ym 1999 gwnaeth Estyn gynnal arolwg o'r ysgol a barnodd fod 75 y cant o'r dysgu o ansawdd da, neu dda iawn, bod 66 y cant o'r safonau cyrhaeddiad yn dda neu dda iawn (44 y cant yw'r cyfartaledd cenedlaethol) a bod 80 y cant o'r addysgu o ansawdd da neu dda iawn (47 y cant yw'r cyfartaledd cenedlaethol)
- O ran staff mae gan Prosiect Priory 2.6 athro, 14 cynorthwy-ydd dysgu ac arweinydd cylch chwarae. Sipsiwn oedd tri o'r cynorthwy-wyr dysgu. Roedd 205 o blant sipswn oed 3-19 yn derbyn cymorth mewn 5 ysgol uwchradd ac 8 ysgol gynradd. Roedd 6 myfyriwr yn derbyn addysg ôl-16. Roedd hyn yn cynnwys sipsi a ddychwelodd i addysg llawn amser ar ôl gadael yr ysgol yn 9 oed. Roedd bellach yn byw ar safle sipsiwn crwydrol ac yn astudio peirianneg yn y Brifysgol. Etholwyd aelod o'r gymuned sipsi i fwrdd llywodraethwyr Ysgol Priordy Monkton.
- 85.5 y cant mewn ysgolion cynradd a 75 y cant mewn ysgolion uwchradd yw'r ffigurau presenoldeb ar gyfartaledd ar gyfer plant sipsiwn mewn ysgolion y sir sy'n cael cymorth. Roedd y canlyniadau i'w gweld yn rhannol yn y rheini oedd wedi gadael yr ysgol ac yn cadw eu hunaniaeth ddiwylliannol ac yn parhau i fyw ar safleoedd sipsiwn tra'n gweithio yn y Weinyddiaeth Amddiffyn ac yn y purfeydd olew, mewn busnesau bach a thrin gwallt, ac ati. Roedd hyn yn gosod esiampl i frodyr a chwiorydd iau.
- Er mwyn cael parhad a chysondeb mewn addysg roedd rhaid cael ymddiriedaeth, hyblygrwydd a'r gallu i ymateb i'r anghenion lleol. Roedd yr ysgol yn cynrychioli'r gymuned sipsiwn leol o ran y cynghorwyr lleol, ACau, ASau, meddygon, asiantaethau budd-daliadau, yr heddlu a darpar gyflogwyr.
- Gwnaeth Canolfan Ddysgu'r Priory gais am arian Amcan Un a chafodd 15 cyfrifiadur côl ar gyfer hyfforddiant TG. Rhoddwyd grantiau hefyd ar gyfer gweithio gyda Gwasanaeth Amgueddfa Sir Benfro i ddatblygu arddangosfa sipsiwn crwydrol gan gynnwys wagen romani i'w dangos i ysgolion a safleoedd sipsiwn yn y sir.

1. Gwnaeth y pwyllgor ddiolch i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac am yr enghreifftiau o arfer gorau yr oeddent wedi eu disgrifio. Fel rhan o'r adolygiad, gall ysgrifenyddiaeth y pwyllgorau drefnu bod aelodau'r pwyllgor yn ymweld â phrosiectau.

**12.25 – 12.30 pm**

**Eitem 9: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

**Papur: EOC-06-02(min)**

1. Roedd Diabetes UK wedi ysgrifennu at y cadeirydd blaenorol gan holi ynghylch y modd y cofnodwyd eu cyflwyniad a'r drafodaeth ohono. Roeddent yn pryderu'n benodol nad oedd y cofnodion yn adlewyrchu sylwadau rhai o aelodau'r pwyllgor yn cefnogi eu cais am gyllid ychwanegol. Adolygwyd fideo o'r eitem ac er bod y pwyllgor ar y cyfan yn gefnogol iawn i waith Diabetes UK, dim ond un aelod a wnaeth gyfeirio'n benodol at gefnogi cyllid ychwanegol, ac nid oedd y cadeirydd wedi ei gynnwys yn y crynodeb o'r drafodaeth. Nododd y pwyllgor yr hyn a ddywedodd yr aelod gan benderfynu i dderbyn

bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r eitem hon.

2. Gwnaeth Derek Walker o Fforwm LGB dynnu sylw at bwynt bwled olaf 2.2, ac yn lle gwneud 'cynnig i estyn y cyllid 3 blynedd cychwynnol', roedd y Fforwm wedi gwneud cais 'i estyn y cyllid blwyddyn cychwynnol am dair blynedd'.
3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ar ôl iddynt ymgorffori'r newid hwn.
4. Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm.